

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Menter a Dysgu

Dysgu ac addysgu Cymraeg fel ail iaith

Medi 2010



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliadcymru.org](http://www.cynulliadcymru.org)**

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Menter a Dysgu  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8018  
Ffacs: 029 2089 8021  
E-bost: [Enterprise.learning.comm@Wales.gov.uk](mailto:Enterprise.learning.comm@Wales.gov.uk)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010  
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Menter a Dysgu

Dysgu ac addysgu Cymraeg fel ail iaith

Medi 2010



## **Y Pwyllgor Menter a Dysgu**

Penodir y Pwyllgor Menter a Dysgu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried materion ym meysydd datblygu economaidd, trafnidiaeth, ac addysg, dysgu gydol oes a sgiliau, ac adrodd yn eu cylch. Yn benodol, gall y Pwyllgor archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus cysylltiedig.

## **Pwerau**

Sefydlwyd y Pwyllgor yn dilyn Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 2007 fel un o bwyllgorau craffu'r Cynulliad Cenedlaethol. Caiff ei bwerau eu hegluro yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn enwedig Rheol Sefydlog 12. Mae'r Rheolau Sefydlog i'w gweld yn [www.cynulliadcymru.org](http://www.cynulliadcymru.org)

## **Aelodau'r Grŵp Rapporteur**

<b>Aelod Pwyllgor</b>	<b>Plaid</b>	<b>Etholaeth neu Ranbarth</b>
Gareth Jones (Cadeirydd)	Plaid Cymru	Aberconwy
Jeff Cuthbert	Llafur	Caerffili
David Melding	Plaid Geidwadol Cymru	Canol De Cymru
Jenny Randerson	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Canol Caerdydd

## **Aelodau'r Pwyllgor**

<b>Aelod Pwyllgor</b>	<b>Plaid</b>	<b>Etholaeth neu Ranbarth</b>
Gareth Jones (Cadeirydd)	Plaid Cymru	Aberconwy
Christine Chapman	Llafur	Cwm Cynon
Jeff Cuthbert	Llafur	Caerffili
Andrew Davies	Llafur	Gorllewin Abertawe
Paul Davies	Plaid Geidwadol Cymru	Preseli Sir Benfro
Nerys Evans	Plaid Cymru	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Brian Gibbons	Llafur	Aberafan
David Melding	Plaid Geidwadol Cymru	Canol De Cymru
Jenny Randerson	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Canol Caerdydd



# Cynnwys

---

<b>Argymhellion y Pwyllgor .....</b>	<b>7</b>
<b>Cefndir yr ymchwiliad.....</b>	<b>11</b>
Diben yr ymchwiliad .....	11
Iaith Pawb.....	12
Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.....	12
<b>Pam mae dwyieithrwydd yn bwysig i blant yng Nghymru?.....</b>	<b>14</b>
Diffinio dwyieithrwydd .....	15
<b>Heriau a chyfleoedd .....</b>	<b>17</b>
Addysgu Cymraeg fel ail iaith .....	17
Pontio o'r cynradd i'r uwchradd .....	18
Y cwrs llawn a byr TGAU .....	20
Cyfleusterau ac adnoddau addysgu.....	23
Darpariaeth ar gyfer dysgwyr ôl-16 ac oedolion.....	24
Hyfforddiant i ymarferwyr .....	25
Arweinyddiaeth gadarn.....	28
Creu cysylltiadau .....	29
Gweithgareddau allgyrsiol dwyieithog .....	30
Cynllunio ar gyfer dysgu iaith .....	31
Gwobrwyo dwyieithrwydd .....	33
Colegau ac ysgolion sy'n ystyriol o ddwyieithrwydd .....	33
Yr angen i genhadu dros ddwyieithrwydd .....	34
Arfer da wrth addysgu'r Gymraeg fel ail iaith .....	35
Athro Cymraeg teithiol .....	35
Prosiect Geiriau Bach .....	36
SaysomethinginWelsh.com.....	37
Athrawon Bro .....	38
<b>Casgliad.....</b>	<b>39</b>
<b>Atodiad A – Tystion, tystiolaeth a gweithgareddau .....</b>	<b>41</b>





## Argymhellion y Pwyllgor

---

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd â'r argymhellion:

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio'n agos gydag awdurdodau addysg lleol i weithredu diffiniad cliriach o'r ystod eang a geir o ysgolion dwyieithog, er mwyn sicrhau mwy o gysondeb ar draws Cymru o ran cynllunio, datblygu a gweithredu polisiau dwyieithog. (Tudalen 17)

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried asesu sgiliau iaith pob disgybl yn gynharach yng Nghyfnod Allweddol 2. Rydym yn argymell hefyd bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil i lefelau parhad iaith ar hyn o bryd o'r naill Gyfnod Allweddol i'r llall, a'r camau y gellir eu cymryd i fynd i'r afael â'r problemau sy'n bodoli o safbwynt pontio. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil i effaith cyflwyno TGAU Cymraeg Ail Iaith fel pwnc craidd yn y cwricwlwm. (Tudalen 22)

**Argymhelliad 4.** O ystyried bod canlyniadau A\* - C y cwrs byr yn sylweddol is na chanlyniadau'r cwrs llawn, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i phartneriaid ac ysgolion i greu mwy o le yn y cwricwlwm er mwyn i'r cwrs llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith gael ei addysgu'n effeithiol. (Tudalen 23)

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio cyfleoedd i fuddsoddi ymhellach mewn deunyddiau addysgu Cymraeg mwy amrywiol ar gyfer dysgwyr ar lefel gynradd ac uwchradd, yn enwedig darpariaeth ar gyfer deunyddiau dysgu sy'n seiliedig ar dechnoleg gwybodaeth ac sydd ar y we, a'i bod yn archwilio cyfleoedd i hyrwyddo'r deunyddiau hynny. Rydym yn argymell hefyd na ddylai gwaith buddsoddi mewn adnoddau o'r fath ddigwydd ar draul y ddarpariaeth addysgu. (Tudalen 24)

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno cwrs Cymraeg mwy dwys, a

fyddai'n paratoi disgyblion ôl-16 ar gyfer ymateb i amrywiol sefyllfaoedd yn yr amgylchedd gwaith. (Tudalen 25)

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell hefyd bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ffyrdd o gyflwyno cwrs Cymraeg wedi'i achredu ym maes addysg ôl-16, gyda mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg fel sgil galwedigaethol. (Tudalen 25)

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil i'r camau a gymerir gan ysgolion i annog athrawon i gofrestru ar gyrsiau Cymraeg. Rydym yn argymell hefyd bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffordd orau y gall ddarparu cymorth a chynghor i ysgolion ac athrawon ynghylch sut i reoli adnoddau'n ofalus er mwyn caniatáu i athrawon fod yn absennol at ddibenion hyfforddi. (Tudalen 26)

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyfoethogi'r ddarpariaeth er mwyn cyflwyno hyfforddiant i gynorthwyyr dosbarth ar addysgu Cymraeg fel ail iaith. Rydym yn argymell y dylid ystyried cyflwyno'r hyfforddiant hwn trwy Ganolfannau Cymraeg i Oedolion neu brosiect peilot Geiriau Bach. (Tudalen 27)

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sefydlu cwrs Cymraeg dwys ar gyfer athrawon a staff cymorth di-Gymraeg. Rydym yn argymell y dylid ystyried cyflwyno'r cyrsiau hyn trwy Ganolfannau Cymraeg i Oedolion. (Tudalen 27)

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried achredu rhaglen Gymraeg Cynllun Colegau Cymru, er mwyn darparu cymhelliant ychwanegol i athrawon ddysgu Cymraeg. (Tudalen 28)

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell y dylid darparu arweiniad i benaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion ar sut y gallant ddatblygu 'ethos dwyieithog' yn eu hysgolion. Dylai'r arweiniad hwn ganolbwyntio ar gynyddu'r ddealltwriaeth o atebolrwydd a chyfrifoldeb, a chydweithio rhwng ysgolion, Awdurdodau Addysg Lleol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Cymru. Efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru ddefnyddio Ysgol Gyfun Treorci fel model o arfer da. (Tudalen 29)

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried defnyddio'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion i greu

cysylltiadau rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg er mwyn datblygu cymunedau dysgu proffesiynol a rhannu arbenigedd ym maes addysgu Cymraeg. (Tudalen 30)

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ffyrdd o weithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, CBAC a'r Urdd i hyrwyddo manteision siarad Cymraeg yn effeithiol ymysg rhieni di-Gymraeg, yn enwedig y nifer sylweddol o rieni sy'n gyndyn o annog eu plant i ddysgu Cymraeg. (Tudalen 32)

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cydweithio â S4C a CBAC i ddatblygu rhaglenni newydd ar gyfer dysgu Cymraeg fel ail iaith, sy'n cynnwys diwylliant poblogaidd ac sy'n berthnasol i'r gymdeithas gyfoes. Rydym yn argymell hefyd bod y rhaglenni hyn yn cael eu darlledu trwy'r holl gyfryngau sydd ar gael i S4C er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr Cymraeg Ail Iaith fynediad parod i adnoddau dysgu. (Tudalen 33)

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i baratoi a chyhoeddi arweiniad ar gyfer ysgolion i gydnabod y gwahanol raddau o ddwyieithrwydd. Rydym yn argymell hefyd y dylai unrhyw arweiniad a gyhoeddir gynnwys gradd arolygu briodol, yn unol â'r graddau hynny a ddarperir ar gyfer datblygu cynaliadwy a chysylltiadau rhyngwladol. (Tudalen 34)

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried dichonolrwydd gweithredu Menter Ysgolion Ystyriol o Ddwyieithrwydd, a fyddai'n rhoi pwyslais ar ddull ysgol gyfan o ystyried dwyieithrwydd. (Tudalen 34)

**Argymhelliad 18.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio system raddedig o wobrwyo hyfedredd mewn dwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg, sy'n addas i addysg gynradd, uwchradd a thrydyddol. (Tudalen 34)

**Argymhelliad 19.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â'i phartneriaid, yn goruchwyllo ac yn monitro gwaith datblygu a hyrwyddo strategaethau lleol a chenedlaethol ynghylch addysg ddwyieithog, ac yn gwneud yn siŵr bod ysgolion ledled Cymru yn cael y cymorth a'r cyngor angenrheidiol i sicrhau bod yr holl bolisiau addysg yn gydnaws â darpariaeth ddwyieithog. Rydym yn argymell hefyd bod safbwyntiau ysgolion yng Nghymru yn cael eu

cynrychioli ar banel cynghori arfaethedig Comisiynydd y Gymraeg.  
(Tudalen 35)

**Argymhelliad 20.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu rhagor o ymchwil i'r arfer o gyflogi athrawon Cymraeg teithiol i helpu gyda'r broses bontio rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3, fel y gwna Ysgol Gyfun Treorci, a'i bod yn archwilio cyfleoedd i rannu arfer gorau ag ysgolion cyfrwng Saesneg ledled Cymru. (Tudalen 36)

**Argymhelliad 21.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cymorth ariannol digonol i brosiect Geiriau Bach y tu hwnt i 2011, a'i bod yn archwilio'r posibilrwydd o gomisiynu prosiectau peilot eraill ledled Cymru. Rydym yn argymell hefyd bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n rhagweithiol i ddarparu adborth rheolaidd a'r gefnogaeth angenrheidiol i brosiectau sy'n bodoli'n barod a phrosiectau'r dyfodol. (Tudalen 37)

**Argymhelliad 22.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod casgliadau ac argymhellion ein hadroddiad yn cael eu hadlewyrchu wrth weithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. (Tudalen 40)

## Cefndir yr ymchwiliad

---

### Diben yr ymchwiliad

1. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Menter a Dysgu ar 15 Ionawr 2009, cafodd Grŵp Rapporteur trawsbleidiol ei ethol gan y Pwyllgor i ystyried gwahanol agweddau ar ddwyieithrwydd yng Nghymru ac adrodd ar ei ganfyddiadau. Roedd aelodau'r grŵp fel a ganlyn: Jeff Cuthbert AC; Gareth Jones AC; David Melding AC; a Jenny Randerson AC.

2. Bu'r Grŵp Rapporteur ar Ddwyieithrwydd ('y grŵp') yn trafod ei flaenoriaethau yn ei gyfarfod anffurfiol cyntaf ar 5 Chwefror 2009. Penderfynodd y byddai'n canolbwyntio ar y tri maes strategol canlynol:

- Dysgu ac addysgu Cymraeg fel ail iaith;
- Hyfforddiant a sgiliau dwyieithog yn y gweithle; a
- Rhyngwyneb busnes â'r cyhoedd.

3. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar faes cyntaf yr ymchwiliad, sef archwilio gwaith dysgu ac addysgu Cymraeg fel ail iaith. Bydd dau gam olaf yr ymchwiliad yn cael eu cwblhau cyn diwedd y trydydd Cynulliad.

4. Cynhaliodd y grŵp saith cyfarfod ac ymweliad anffurfiol rhwng mis Chwefror 2009 a mis Mai 2010, a oedd yn cynnwys pum cyfarfod anffurfiol ym Mae Caerdydd gyda phobl broffesiynol sy'n gweithio ym maes addysg ddwyieithog, a dau ymweliad ag enghreifftiau o arfer da. Mae rhestr o'r gweithgareddau y bu'r Grŵp Rapporteur ar Ddwyieithrwydd yn ymgymryd â hwy i'w gweld yn Atodiad A.

5. Mae'r grŵp yn ddiolchgar iawn i bawb a anfonodd wybodaeth ato am ddysgu ac addysgu Cymraeg fel ail iaith, yn ogystal â'r bobl a neilltuodd amser i gwrdd â'r grŵp yn bersonol – maent hwythau wedi'u rhestru yn Atodiad A.

## **Iaith Pawb**

6. Bu'r grŵp yn gweithio yng nghyd-destun Iaith Pawb, Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Iaith Gymraeg<sup>1</sup>, a gyhoeddwyd yn 2003. Mae'r cynllun gweithredu'n nodi'r targedau allweddol canlynol, sydd i'w cyflawni erbyn 2011:

- bod y ganran o bobl Cymru sy'n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu 5 pwynt canran o'r ffigwr a ddaw i'r amlwg o gyfrifiad 2001;
- bod y lleihad yn nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan dros 70 y cant o'r boblogaeth yn cael ei atal;
- bod cynnydd yng nghanran y plant sy'n derbyn addysg cyn-ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg;
- bod cynnydd yng nghanran y teuluoedd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith sgwrsio/cyfathrebu rhwng oedolion a phlant ar yr aelwyd;
- ei bod yn bosibl i gyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ddarparu mwy o wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

## **Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg**

7. Yn ystod yr ymchwiliad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn ddrafft o'i Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg<sup>2</sup> a ddatblygwyd mewn ymateb i'r ymrwymiad yn *Cymru'n Un: Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru*<sup>3</sup> i ' greu Strategaeth Addysg gyfrwng-Cymraeg genedlaethol i ddatblygu darpariaeth effeithiol o addysg feithrin hyd at addysg bellach ac uwch, a'r strategaeth wedi'i hategu gan raglen weithredu'.

8. Nod y Strategaeth yw sicrhau bod y system addysg yng Nghymru yn ei gwneud yn bosibl i ragor o ddysgwyr o bob oedran ennill ystod ehangach o sgiliau Cymraeg, gan alluogi dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn y gweithle.

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru – Iaith Pawb: Cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog

<sup>2</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru – Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, 2009

<sup>3</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru – Cymru'n Un: Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru

9. Mae prif elfennau'r Strategaeth yn cynnwys y nodau canlynol:

- Nod Strategol 1: Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau addysg cyn statudol a statudol, ar sail ymateb yn bositif i'r galw ymhlith rhieni;
- Nod Strategol 2: Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant, gan ystyried dilyniant ieithyddol a datblygu sgiliau'n barhaus;
- Nod Strategol 3: Sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith Gymraeg i'w botensial llawn ac annog dilyniant ieithyddol cadarn o un cyfnod addysg a hyfforddiant i'r nesaf;
- Nod Strategol 4: Sicrhau gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg wedi'i gynllunio sy'n darparu nifer ddigonol o ymarferwyr ar gyfer pob cyfnod addysg a hyfforddiant, ac sy'n meddu ar sgiliau iaith Gymraeg da iawn a chymhwysedd mewn methodolegau addysgu;
- Nod Strategol 5: Gwella'r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg;
- Nod Strategol 6: Cyfrannu at feithrin ac atgyfnerthu sgiliau iaith Gymraeg mewn teuluoedd, yn y gweithle ac yn y gymuned.

10. Mae'r strategaeth hefyd yn ceisio codi safonau addysgu Cymraeg fel ail iaith er mwyn i'r 'rhai nad ydynt yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg hefyd gael cyfleoedd gwell i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg sy'n cyfoethogi eu profiad o fyw mewn gwlad ddwyieithog<sup>4</sup>.

---

<sup>4</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru – Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, 2009

## Pam mae dwyieithrwydd yn bwysig i blant yng Nghymru?

---

11. Clywodd y grŵp gan sawl tyst fod gan ddwyieithrwydd lawer o fanteision posibl y gall plant ac oedolion elwa ohonynt.

12. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan yr Athro Colin Baker<sup>5</sup> yn datgan bod:

Ymchwil wedi dangos bod cael dwy iaith sydd wedi datblygu'n dda yn gallu cynnig manteision penodol i bobl o safbwynt meddwl. Ceir pedwar prif faes:

*Meddwl yn greadigol* – mae gan blant dwyieithog ddau air neu fwy ar gyfer pob gwrthrych a syniad. Pan fydd gwahanol ystyron yn gysylltiedig â geiriau yn y ddwy iaith, gall unigolyn dwyieithog ddatblygu'r gallu i feddwl yn fwy hyblyg;

*Sensitifrwydd* – rhaid i bobl ddwyieithog wybod pa iaith i siarad â phwy, a phryd. Felly, maent yn ymddangos yn fwy sensitif na phobl uniaith i anghenion dysgwyr;

*Prawf IQ* – mae ymchwil o nifer o wahanol wledydd yn y byd yn dangos bod pobl ddwyieithog yn tueddu i wneud yn well mewn profion IQ o'u cymharu â phobl uniaith o'r un dosbarth economaidd-gymdeithasol;

*Mantais o ran darllen* – mae ymchwilwyr o Canada wedi dangos bod dwyieithrwydd yn gallu bod o fantais o safbwynt dysgu darllen, gan fod dwyieithrwydd yn golygu rhoi llai o bwyslais ar sŵn geiriau a mwy o bwyslais ar eu hystyr. Mae hynny'n tueddu i fod yn fantais i blant dwyieithog sydd rhwng oddeutu pedair a chwech oed.

---

<sup>5</sup> Mae'r Athro Colin Baker yn arbenigwr academiaidd blaenllaw ym maes dwyieithrwydd ac addysg o Brifysgol Bangor. Cyhoeddodd drydydd a phedwerydd argraffiad ei lyfr 'Foundations of Bilingual Education and Bilingualism' (2001, 2006). Yn 1994, enillodd argraffiad cyntaf y llyfr hwn wobwr y Gynhadledd Sefydlog mewn Addysg am lyfr gorau 1993 gan awdur profiadol.



## Diffinio dwyieithrwydd

13. Ar hyn o bryd, caiff ysgolion “Cymraeg” eu diffinio, at ddibenion y cwricwlwm ysgol, yn Adran 105(7) Deddf Addysg 2002 sy’n nodi bod:

...ysgol yn un Gymraeg os yw mwy na hanner y pynciau a ganlyn yn cael eu haddysgu (yn llawn neu’n rhannol) drwy gyfrwng y Gymraeg -

(a) addysg grefyddol, a

(b) y pynciau, heblaw am y Gymraeg a’r Saesneg, sy’n bynciau sylfaen ar gyfer y disgyblion yn yr ysgol.

14. Mae dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*<sup>6</sup>, yn nodi diffiniadau a chategorïau o ysgolion yng Nghymru yn ôl yr iaith a ddefnyddiant yn gyfrwng addysgu ac ar gyfer busnes arferol yr ysgol. Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion uwchradd yn perthyn i’r categorïau canlynol: ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg; ysgol uwchradd ddwyieithog; ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o’r Gymraeg; ac ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf. Mae’r categori ysgol uwchradd ddwyieithog wedi’i rannu’n bedair is-adran, yn ôl canran y pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg, a ph’un a yw’r ysgol yn cynnig yr un ddarpariaeth yn Saesneg:

‘Categori 2A – Addysgir o leiaf 80 y cant o’r pynciau ac eithrio’r Gymraeg a’r Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Mae un neu ddau o bynciau yn cael eu haddysgu i rai o’r disgyblion yn Saesneg neu yn y naill iaith a’r llall.

‘Categori 2B – Addysgir o leiaf 80 y cant o’r pynciau (ac eithrio’r Gymraeg a’r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe’u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

‘Categori 2C – Addysgir 50-79 y cant o bynciau (ac eithrio’r Gymraeg a Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe’u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

---

<sup>6</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru – Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, t12

‘Categori 2CH – Addysgir pob pwnc (ac eithrio’r Gymraeg a’r Saesneg) i bob disgybl gan ddefnyddio’r naill iaith a’r llall’.

15. Ym mis Ionawr 2009, cyhoeddodd Estyn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2007/08. Ceir diffiniad o ddwyieithrwydd yn yr Adroddiad ynghyd ag esboniad o’r hyn sy’n sail i waith arolygu:

“...bod â’r gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu mewn dwy iaith. Yng Nghymru, mae dwyieithrwydd yn ymwneud â’r Gymraeg a’r Saesneg, fel ieithoedd swyddogol Cymru. Pan fyddwn ni’n arolygu dwyieithrwydd, rydyn ni’n edrych ar gyflawniad dysgwyr yn Gymraeg neu Saesneg, ac yn gofyn i ba raddau mae darparwyr yn hybu ac yn datblygu medrau dwyieithog disgyblion.”<sup>7</sup>

16. Clywodd y grŵp gan nifer o dystion fod problemau o ran diffinio dwyieithrwydd, a’i fod yn aml yn cael ei ddehongli mewn llawer o wahanol ffyrdd ar draws Cymru.

17. Yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Gareth Wyn Roberts<sup>8</sup>:

“Mae gan lawer o ysgolion bolisi ‘Cymraeg’ a pholisi ‘Saesneg’ neu bolisi ‘datblygu iaith’, ond nid oes ganddynt bolisi dwyieithrwydd”.

18. Mae dwyieithrwydd yn adlewyrchu gallu’r dysgwr, ar lefelau gwahanol, i newid o’r naill iaith i’r llall, a’i allu i gael deunydd mewn un iaith, a’i brosesu a’i ddefnyddio yn yr iaith arall. Clywodd y grŵp fod gwahanol raddau o ddwyieithrwydd, ond nad yw pobl at ei gilydd yn sylweddoli nac yn deall hynny y tu allan i ardaloedd Cymraeg eu hiaith neu y tu allan i ysgolion cyfrwng Cymraeg.

19. Yn ystod ymchwiliad y grŵp, bu’r Pwyllgor Menter a Dysgu yn cynnal ymchwiliad i’r agenda drawsnewid mewn addysg ôl-16<sup>9</sup>. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan UCAC<sup>10</sup> a oedd yn nodi bod yr Undeb yn pryderu bod rhai awdurdodau lleol wedi camddechongli polisiau a chanllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch yr iaith a ddefnyddir yn

---

<sup>7</sup> Estyn, Adroddiad Blynyddol 2007/8

[http://www.estyn.gov.uk/publications/Estyn%20Annual%20Report%202007\\_2008\(w\).pdf](http://www.estyn.gov.uk/publications/Estyn%20Annual%20Report%202007_2008(w).pdf)

<sup>8</sup> Mae Gareth Wyn Roberts yn ymgynghorydd addysgol, yn Arolygydd Ysgolion Cofrestredig ac yn arbenigwr ar ieithoedd Tramor Modern, o safbwynt dysgu ac addysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion uwchradd.

<sup>9</sup> Y Pwyllgor Menter a Dysgu – Yr agenda drawsnewid mewn addysg

<sup>10</sup> Y Pwyllgor Menter a Dysgu – Tystiolaeth ysgrifenedig gan UCAC – 29 Ebrill 2010

gyfrwng addysgu, megis yr arweiniad a geir yn *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*<sup>11</sup>. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd UCAC:

“Yr hyn sydd wedi dod yn fwyfwy eglur inni yw nad yw awdurdodau lleol—nac, ar adegau, swyddogion Llywodraeth y Cynulliad—wedi deall y gwahaniaeth hwnnw; hynny yw, ei bod yn bwysig parhau â'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn sefydliadau lle mae pob cyfle ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, ac nid dim ond dysgu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod gwahaniaeth felly rhwng sefydliad dwyieithog a sefydliad cyfrwng Cymraeg.”<sup>12</sup>

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio'n agos gydag awdurdodau addysg lleol i weithredu diffiniad cliriach o'r ystod eang a geir o ysgolion dwyieithog, er mwyn sicrhau mwy o gysondeb ar draws Cymru o ran cynllunio, datblygu a gweithredu polisiau dwyieithog.**

## **Heriau a chyfleoedd**

---

### **Addysgu Cymraeg fel ail iaith**

20. Dan Ddeddf Addysg 2002, mae Cymraeg Ail Iaith yn un o bynciau sylfaen y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru. Caiff pum mlynedd y ddarpariaeth uwchradd eu rhannu'n ddau gyfnod allweddol. Mae'r tair blynedd o 11 i 14 oed yn perthyn i Gyfnod Allweddol 3, ac mae'r ddwy flynedd o 14 i 16 oed yn perthyn i Gyfnod Allweddol 4. Mae'n ofyniad statudol bod pob disgybl yn cael gwersi Cymraeg hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 4, naill ai fel iaith gyntaf neu fel ail iaith. Yn yr un modd â holl bynciau eraill y cwricwlwm, mae'r amser a gaiff ei neilltuo i astudio'r Gymraeg yn fater i ysgolion benderfynu arno'n lleol.

21. Roedd casgliadau'r naill Adroddiad Blynyddol ar ôl y llall gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg yng Nghymru (Estyn) yn peri pryder i'r grŵp, gan eu bod yn tynnu sylw at wendidau o safbwynt addysgu Cymraeg fel ail iaith. Roedd Adroddiad Blynyddol Estyn ar

---

<sup>11</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru - Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg  
<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/definingschools?lang=cy>

<sup>12</sup> Y Pwyllgor Menter a Dysgu - Cofnod y Trafodion, Para 210 a 211, 29 Ebrill 2010

gyfer 2007/08 yn nodi mai bach iawn o gyfleoedd a ddarperid gan ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn pynciau eraill, mewn gweithgareddau allgyrsiol neu mewn sefyllfaoedd anffurfiol. O ran ysgolion uwchradd, roedd adroddiad Estyn yn nodi bod:

“...perfformiad Cymraeg fel ail iaith yn dal yr un mor wan ag yn y blynyddoedd blaenorol, ac mae'n waeth nawr nag yr oedd yn y gorffennol. Fe wnaethon ni adrodd y llynedd bod rhai diffygion pwysig gan bron i hanner y gwaith. Eleni, mae diffygion pwysig mewn dwy ran o dair o waith disgyblion mewn Cymraeg fel ail iaith. Mae'r addysgu mewn Cymraeg fel ail iaith yn waeth o lawer nag mewn pynciau eraill. Mae 84 y cant o ddisgyblion uwchradd yng Nghymru yn astudio Cymraeg fel ail iaith, ond mae nifer y disgyblion sy'n astudio'r cwrs TGAU llawn mewn Cymraeg fel ail iaith yn dal i ostwng. Nid yw llawer o ddisgyblion yn gwneud gystal ag y gallen nhw mewn Cymraeg fel ail iaith yng nghyfnod allweddol 4 am nad ydyn nhw'n cael digon o amser addysgu, ac mae ansawdd yr addysgu'n wael yn gyffredinol. Mae gormod o ddisgyblion yn methu ennill cymhwyster cydnabyddedig mewn Cymraeg fel ail iaith ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Dim ond 76 y cant o'r rheini sy'n astudio Cymraeg fel ail iaith a gofrestrodd ar gyfer arholiad yn 2007. Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gwneud digon i helpu ysgolion i osod targedau ac i ddatblygu strategaethau i wella'r ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg fel ail iaith yng nghyfnod allweddol 4.”<sup>13</sup>

### ***Pontio o'r cynradd i'r uwchradd***

22. Roedd Adroddiad Blynyddol Estyn ar gyfer 2008/09 yn nodi fel a ganlyn:

“...er bod Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 2 yn llawer gwell na'r flwyddyn flaenorol, hwn o hyd oedd y pwnc â'r perfformiad gwaethaf. Mae cyfran yr ysgolion â gwaith da neu well yn dal i ostwng yn sylweddol o 89 y cant yng nghyfnod allweddol 1 i 74 y cant yng nghyfnod allweddol 2.”<sup>14</sup>

---

<sup>13</sup> Adroddiad Blynyddol Estyn, 2007/08

<sup>14</sup> Adroddiad Blynyddol Estyn, 2008/09

23. Yn ei dystiolaeth i'r grŵp, dywedodd Gareth Wyn Roberts mai un broblem sylweddol sy'n berthnasol i'r sector uwchradd yw bod gwybodaeth a sgiliau iaith o'r sector cynradd yn cael eu haildrodd yn hytrach na'u hatgyfnerthu. Cafwyd tystiolaeth debyg gan sawl tyst a honnai hefyd fod llawer o ddysgwyr sy'n dod o ysgol gynradd yn teimlo'u bod yn cymryd cam tuag yn ôl o safbwynt dysgu Cymraeg wrth ddechrau yn yr ysgol uwchradd, a'u bod yn colli cymhelliant.

24. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Uned Datblygu'r Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru<sup>15</sup> yn tynnu sylw at drefniadau annigonol ar gyfer dilyniant, a oedd wedi arwain at ailadrodd yr un gwaith a dadrithio disgyblion, yn enwedig rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3.

25. Nododd Geiriau Bach fod pontio o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 hefyd yn faes allweddol sy'n peri pryder. O safbwynt sicrhau bod pontio effeithiol yn digwydd o lefel gynradd i lefel uwchradd, roedd Geiriau Bach yn teimlo bod cydweithio rhwng yr holl bartïon dan sylw yn hanfodol, a bod yn rhaid i'r partïon hynny sicrhau bod safonau cyson, cadarn yn cael eu datblygu.

26. Yn ei dystiolaeth i'r grŵp, mynegodd y Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion<sup>16</sup> hefyd bryderon ynghylch pontio o addysg gynradd i addysg uwchradd. Honnai'r gwasanaeth fod y newid pwyslais i ganolbwyntio ar y cwricwlwm ar lefel uwchradd yn peri problem, ac nad oedd y rheini sy'n addysgu Cymraeg yn arbenigwyr iaith, yn aml<sup>17</sup>.

27. Roedd y Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion hefyd yn teimlo nad yw'r sector ysgolion uwchradd wedi rhoi sylw digonol i waith addysgu dwyieithog ar lefel gynradd. Roedd ei dystiolaeth yn nodi ei fod yn credu bod angen i ysgolion uwchradd ddeall nad cyfrifoldeb Estyn yn unig yw'r mater, er bod Estyn yn ei fonitro, a bod yn rhaid iddynt hwy ysgwyddo rhywfaint o gyfrifoldeb am faterion sy'n ymwneud â dwyieithrwydd yn yr ysgolion cynradd sy'n eu bwydo.

28. Cafodd y grŵp y sylwadau canlynol gan Cennard Davies, Golygydd '*Y Gloran*', sef papur bro Blaenau'r Rhondda Fawr, a chyn-Bennaeth y Gymraeg ym Mhrifysgol Morgannwg:

---

<sup>15</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, t4

<sup>16</sup> Mae'r Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion (ESIS) yn drefniant cydweithio rhwng cynghorau bwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Mae naw o athrawon bro yn rhan o'r Gwasanaeth.

<sup>17</sup> Y Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion - nodiadau cyflwyniad

“It concerns me that the education of some children who have attended Welsh medium primary schools is compromised because they go on to secondary schools which are essentially English medium schools.”<sup>18</sup>

29. Teimla fod disgyblion yn Ysgol Gyfun Treorci sydd wedi dod o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn colli'r profiad o ddysgu ystod eang o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r profiad o gymdeithasu bob dydd gyda chyfoedion sy'n siarad Cymraeg. Dywedodd wrth y grŵp fod pob un o'r plant yn Ysgol Gyfun Treorci a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl wedi cael eu haddysgu mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg.

30. Mae Ysgol Gyfun Treorci yn dechrau'r broses o gyflwyno'r iaith yn gynnar. Dywedodd Cennard Davies y dylid asesu sgiliau iaith mor gynnar ag sy'n bosibl yn ystod addysg plentyn er mwyn gweld potensial llawn yr iaith yn y sector cynradd Saesneg.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried asesu sgiliau iaith pob disgybl yn gynharach yng Nghyfnod Allweddol 2. Rydym yn argymhell hefyd bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil i lefelau parhad iaith ar hyn o bryd o'r naill Gyfnod Allweddol i'r llall, a'r camau y gellir eu cymryd i fynd i'r afael â'r problemau sy'n bodoli o safbwynt pontio.**

#### *Y cwrs llawn a byr TGAU<sup>19</sup>*

31. Ym mis Hydref 2007, cyhoeddodd Estyn arfarniad o'r cwrs byr TGAU Cymraeg Ail iaith, a daeth i'r casgliad bod:

“...diffygion sylfaenol mewn cyflwyno Cymraeg fel ail iaith yng nghyfnod allweddol 4 ac wrth gyflwyno'r cwrs byr yn benodol. Mae'r diffygion hyn yn rhwystr rhag bodloni'r targed yn iaith Pawb o gynyddu cyfran y siaradwyr Cymraeg o bum pwynt canran erbyn 2011 o ffigur 2001.”<sup>20</sup>

---

<sup>18</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Cennard Davies

<sup>19</sup> Mae'n ofynnol i ymgeiswyr y cwrs byr TGAU gyflawni Uned 1: Papur Ysgrifenedig, Haen Uwch a Sylfaenol, ac Uned 2: Asesiad dan Reolaeth.


Mae'n ofynnol i ymgeiswyr y cwrs llawn TGAU gyflawni Uned 1: Papur Ysgrifenedig, Haen Uwch a Sylfaenol, Uned 2: Asesiad dan Reolaeth, Uned 3: Arholiad Llafar, ac Uned 4: Papur Ysgrifenedig, Haen Uwch a Sylfaenol.

<sup>20</sup> Estyn, 'Arfarniad o'r cwrs byr TGAU Cymraeg ail iaith' Hydref 2007

32. Yn ei dystiolaeth, dywedodd y Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion fod y cwrs byr TGAU yn cael effaith negyddol yn hytrach nag effaith gadarnhaol ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith.

33. Mae Siart 1 yn dangos sut y cynyddodd y nifer sy'n ymgeisio am gymhwyster TGAU mewn Cymraeg Ail iaith ar ôl Deddf Diwygio Addysg 1988<sup>21</sup>. Clywodd y grŵp gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg mai'r cynnydd mawr yn y nifer sy'n sefyll arholiad y cwrs byr TGAU er 2001 yw un o'r nodweddion mwyaf trawiadol.

**Siart 1**



Ffynhonnell: Ystadegau CBAC

34. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan CBAC<sup>22</sup> yn rhoi'r canlyniadau ar gyfer y cwrs byr TGAU Cymraeg Ail iaith, sy'n is na'r rhai ar gyfer y cwrs llawn bob blwyddyn. Mae'r tabl isod yn enghraifft o'r canrannau cronus ar gyfer 2007 i 2009:

Blwyddyn	Cwrs llawn A* - C	Cwrs byr A* - C	Cwrs llawn A* - G	Cwrs byr A* - G
2007	70.5%	47.4%	99.2%	97.5%
2008	72.0%	47.9%	99.5%	97.2%
2009	72.8%	49.1%	99.3%	97.5%

<sup>21</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, t1

<sup>22</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan CBAC, t2

35. Clywodd y grŵp fod sawl rheswm i egluro'r canlyniadau is. Mewn rhai ysgolion, mae'r amser a neilltuir i gyflwyno'r cwrs byr TGAU gyn lleied â 30 munud yr wythnos neu 1 awr y pythefnos, ac yn aml, athrawon nad ydynt yn arbenigo yn y pwnc ond sy'n digwydd siarad Cymraeg sy'n cyflwyno'r cwrs Cymraeg. Mewn ymateb i holiadur i athrawon yn 2007, cafodd CBAC dystiolaeth na fyddai ysgolion yn gallu cynnal dau gwrs TGAU Cymraeg Ail Iaith ar yr un pryd oherwydd diffyg amser yn y cwricwlwm a diffyg athrawon arbenigol.<sup>23</sup>

36. Mae'r casgliadau hyn, a gaiff eu hategu gan ganfyddiadau arolygon ysgol, yn adlewyrchu'r patrwm sydd wedi dod i'r amlwg dros nifer o flynyddoedd: mae safonau mewn Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 4 yn is nag mewn unrhyw bwnc arall, ac mae diffygion yng nghyflawniadau'r disgyblion i'w gweld ym mron i 60 y cant o wersi.<sup>24</sup>

37. Yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Uned Datblygu'r Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru<sup>25</sup>:

“Welsh second language is a ‘foundation’ subject while Welsh first language, English, Mathematics and Science are ‘core’ subjects in the curriculum. As with all other subjects in the curriculum, the amount of time given to its study is a matter for local determination by schools.”

38. Wedi hynny, ychwanegodd Uned Datblygu'r Gymraeg:

“If Welsh second language was made a core subject, the allocation of time may change as senior management teams would approach it differently as results would affect the standing of the school.”

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil i effaith cyflwyno TGAU Cymraeg Ail Iaith fel pwnc craidd yn y cwricwlwm.**

39. Yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Uned Datblygu'r Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru:

“the current assessment and accreditation systems are not encouraging all pupils to see the worth and relevance of Welsh

---

<sup>23</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan CBAC, t2

<sup>24</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Dr W Gwyn Lewis, t3

<sup>25</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, t1



second language and not every learner aged 15/16 sits an examination or gains a qualification in the subject. Moreover, the GCSE short course leads to limited expectations.”<sup>26</sup>

40. Bydd cwrs TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd, a achredwyd yn 2009, yn cael ei gyflwyno am y tro cyntaf ym mis Medi 2010. Bydd dau gwrs ar gael i ddysgwyr – Cymraeg Ail Iaith a Chymraeg Ail Iaith Cymhwysol. Bydd y ddau yn cynnig cwrs byr a chwrs llawn. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan CBAC yn datgan bod:

“...CBAC yn gobeithio y bydd penaethiaid ysgolion yn rhoi lle yn y cwricwlwm i athrawon addysgu'r Cwrs Llawn oherwydd bod mwy o werth i dystysgrif Cwrs Llawn a bod hynny'n arwain at statws uwch yn y pwnc.”

**O ystyried bod canlyniadau A\* - C y cwrs byr yn sylweddol is na chanlyniadau'r cwrs llawn, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i phartneriaid ac ysgolion i greu mwy o le yn y cwricwlwm er mwyn i'r cwrs llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith gael ei addysgu'n effeithiol.**

### ***Cyfleusterau ac adnoddau addysgu***

41. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Uned Datblygu'r Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datgan bod sicrhau bod ystod eang o adnoddau dysgu ac addysgu ar gael yn allweddol o ran cyflwyno Cymraeg Ail Iaith yn llwyddiannus.<sup>27</sup> Clywodd y grŵp fod oddeutu £360,000 y flwyddyn wedi'i fuddsoddi dros y degawd diwethaf mewn datblygu adnoddau Cymraeg Ail Iaith ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 19 oed, a'r llynedd roedd gwerthiant gros deunyddiau wedi'u hargraffu yn werth dros £100,000.

42. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Gareth Wyn Roberts yn nodi mai ystod gymharol fach o ddeunydd addysgu Cymraeg amrywiol ac addas sydd ar gael ar lefel gynradd, o gymharu'r Gymraeg ag ieithoedd a siaredir yn fwy eang, yn enwedig deunydd sy'n defnyddio technoleg gwybodaeth. Fodd bynnag, yn ei dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, dywedodd fod sicrhau bod deunydd ar gael yn bwysig iawn, ond bod brwdfrydedd a gwybodaeth athro hollol gymwys yn fwy gwerthfawr.

---

<sup>26</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, t4

<sup>27</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, t3

43. Cynhaliodd Dr W Gwyn Lewis<sup>28</sup> ymchwil a oedd yn archwilio'r rhesymau pam mae safonau cyflawniad mewn Cymraeg Ail Iaith mor isel. Roedd ei dystiolaeth ysgrifenedig<sup>29</sup> yn nodi:

“Both at primary and secondary level it is clear that (Welsh Second language) teachers feel the resources are inadequate; at secondary level, in particular, they invariably compare with Modern Foreign Language (MFL) resources – and Welsh Second Language (WSL) materials always come out as ‘inferior’.

“Good use is made of any resources that are available; the majority of respondents referred to useful materials produced by the Local Education Authorities. A significant number (30 per cent) said that they had to design and produce their own resources and that there was insufficient ICT-related materials available.”

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio cyfleoedd i fuddsoddi ymhellach mewn deunyddiau addysgu Cymraeg mwy amrywiol ar gyfer dysgwyr ar lefel gynradd ac uwchradd, yn enwedig darpariaeth ar gyfer deunyddiau dysgu sy'n seiliedig ar dechnoleg gwybodaeth ac sydd ar y we, a'i bod yn archwilio cyfleoedd i hyrwyddo'r deunyddiau hynny. Rydym yn argymhell hefyd na ddylai gwaith buddsoddi mewn adnoddau o'r fath ddigwydd ar draul y ddarpariaeth addysgu.**

### **Darpariaeth ar gyfer dysgwyr ôl-16 ac oedolion**

44. Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n llywio'r rhaglen Cymraeg i Oedolion ar lefel strategol, ac sy'n ei chydlynu'n genedlaethol. Yn 2008/09 roedd gan y rhaglen, sef y rhaglen fwyaf yng Nghymru o ran dysgu cymunedol a dysgu i oedolion, 18,220 o ddysgwyr, o'u cymharu â 17,570 yn 2007/08<sup>30</sup>. Yn 2006, sefydlodd Llywodraeth Cymru chwech o Ganolfannau Cymraeg i Oedolion i arwain gwaith cynllunio, ariannu a datblygu darpariaeth ar lawr gwlad mewn partneriaeth â darparwyr trydydd parti. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau ansawdd a darparu hyfforddiant i diwtoriaid.

---

<sup>28</sup> Mae Dr W Gwyn Lewis yn ymchwilydd blaenllaw ym maes addysg cyfrwng Cymraeg yng nghyd-destun dwyieithrwydd yng Nghymru, ar lefel ysgolion cynradd ac uwchradd.

<sup>29</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Dr W Gwyn Lewis, t7

<sup>30</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, t2

45. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Uned Datblygu'r Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru, amlinellwyd sut y mae'r Uned yn gweithio gyda Sgiliaith a CBAC i ddatblygu unedau iaith ar Waith. Cymhwyster cyfoes yw iaith ar Waith, y bwriedir iddo gael ei astudio ochr yn ochr â phynciau galwedigaethol ac sy'n hybu hyfedredd dysgwyr iaith gyntaf ac ail iaith o ran darparu gwasanaethau i gwsmeriaid trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys elfennau o ddwyieithrwydd.<sup>31</sup> Mae tystiolaeth a gyflwynwyd gan CBAC yn dadlau y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried datblygu unedau a fydd yn gwella sgiliau iaith disgyblion ôl-16, gan gynnwys cyrsiau neu unedau mwy dwys i wella sgiliau iaith disgyblion wrth baratoi ar gyfer y gweithle.

46. Croesawodd y grŵp y newyddion bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil academiaidd i'r modd y caiff y Gymraeg ei haddysgu i oedolion.<sup>32</sup> Clywodd y grŵp y bydd yr ymchwil hwn yn adolygu'r methodolegau addysgu a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddarparu cyrsiau Cymraeg i Oedolion, ac y bydd yn gwneud argymhellion ar gyfer datblygu cwricwlwm Cymraeg i Oedolion.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno cwrs Cymraeg mwy dwys, a fyddai'n paratoi disgyblion ôl-16 ar gyfer ymateb i amrywiol sefyllfaoedd yn yr amgylchedd gwaith.**

**Rydym yn argymhell hefyd bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ffyrdd o gyflwyno cwrs Cymraeg wedi'i achredu ym maes addysg ôl-16, gyda mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg fel sgil galwedigaethol.**

### **Hyfforddiant i ymarferwyr**

47. Clywodd y grŵp dystiolaeth gan Gareth Wyn Roberts mai ychydig o Gymraeg sydd gan lawer o athrawon ysgol eu hunain, a'u bod yn addysgu hyd eithaf eu gallu, heb sôn am eu brwdfrydedd i addysgu. Mae ei dystiolaeth ysgrifenedig yn nodi bod "athrawon ysgol cynradd sy'n addysgu amrediad o bynciau, gydag eithriadau prin, heb y sgiliau

---

<sup>31</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, t7

<sup>32</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, t6

arbenigol i addysgu ail iaith, pa un ai ydynt yn siarad Cymraeg ai peidio eu hunain.”<sup>33</sup>

48. Mynegodd y Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion bryderon am ddiffyg profiad a sgiliau Cymraeg ymhlith athrawon ledled Cymru, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 2<sup>34</sup>. Clywodd y grŵp dystiolaeth anecdotaidd bod pwysau difrifol yn y pynciau craidd o ganlyniad i'r ffaith mai nifer fach o siaradwyr Cymraeg sydd ar gael, a bod angen mwy o gyrsiau hyfforddi ar gyfer athrawon.

49. Clywodd y grŵp mai'r cwrs tair wythnos i athrawon Lefel 1 i 3<sup>35</sup> yw'r cwrs y mae'r galw mwyaf amdano ledled Cymru. Fodd bynnag, roedd prinder adnoddau'n golygu mai ychydig o gyllid a gâi ei ddarparu gan rai Awdurdodau Addysg Lleol i athrawon gofrestru ar y cwrs. Clywodd y grŵp fod Pen-y-bont ar Ogwr, er enghraifft, wedi haneru nifer yr athrawon y telir am le ar eu cyfer ar y cwrs.

50. Darparodd y Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion dystiolaeth anecdotaidd a oedd yn honni bod rhai penaethiaid yn gyndyn o ryddhau athrawon i gael eu hyfforddi, oherwydd diffyg staff o safon addas i gyflenwi drostynt.

51. Yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Uned Datblygu'r Gymraeg:

“...often teachers are unable to attend the CPD (Continuing Professional Development) courses available to them due to budgetary limitations within schools or difficulties in being released from schools. There is also little overall evidence about the efficacy of such training.”

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil i'r camau a gymerir gan ysgolion i annog athrawon i gofrestru ar gyrsiau Cymraeg. Rydym yn argymhell hefyd bod Llywodraeth**

---

<sup>33</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Gareth Wyn Roberts, t3

<sup>34</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion, t3

<sup>35</sup> Prif nod y cwrs Cymraeg dwys yw galluogi athrawon i gael gafael ddigonol ar y Gymraeg er mwyn iddynt allu cyflwyno'r iaith yn eu hystafelloedd dosbarth hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd y cwrs yn canolbwyntio ar: ddysgu geirfa, swyddogaethau iaith, ac ymadroddion (Cymraeg pob dydd) sy'n ddefnyddiol mewn gwahanol sefyllfaoedd yn yr ystafell ddosbarth; y fethodoleg briodol y mae ei hangen i addysgu Cymraeg fel ail iaith; a sut i ddefnyddio'r ystod gyfan o adnoddau addysgu'n effeithiol: llyfrau, fideos, tapiau a gemau.

**Cymru yn ystyried y ffordd orau y gall ddarparu cymorth a chyngor i ysgolion ac athrawon ynghylch sut i reoli adnoddau'n ofalus er mwyn caniatáu i athrawon fod yn absennol at ddibenion hyfforddi.**

52. Er bod athrawon yn allweddol i lwyddiant cyflwyno gwersi Cymraeg, ac yn flaenoriaeth o safbwynt hyfforddiant, roedd pawb a gyfarfu â'r grŵp yn pwysleisio mor bwysig yw cynorthwywyr dosbarth (cynorthwywyr cymorth dysgu) sy'n chwarae rôl sylweddol a chynyddol bwysig o ran cyflwyno gwersi. Clywodd y grŵp fod angen hyfforddi'r staff hynny i lefel briodol a bod yn well gan lawer o gynorthwywyr dosbarth gofrestru ar y cwrs wythnos, sy'n galluogi cyfranogwyr i feithrin hyder o safbwynt hybu dwyieithrwydd trwy'r ysgol gyfan. Bydd y cynorthwywyr dosbarth yn aml yn dychwelyd ar gyfer cyrsiau diweddarau.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyfoethogi'r ddarpariaeth er mwyn cyflwyno hyfforddiant i gynorthwywyr dosbarth ar addysgu Cymraeg fel ail iaith. Rydym yn argymhell y dylid ystyried cyflwyno'r hyfforddiant hwn trwy Ganolfannau Cymraeg i Oedolion neu brosiect peilot Geiriau Bach.**

53. Yn dilyn yr ymweliad ag Ysgol Gyfun Treorci, cafodd y grŵp sylwadau gan Cennard Davies, a fynegodd bryderon ynghylch nifer yr athrawon cymwys sydd ar gael.<sup>36</sup> Dywedodd na fyddai'n bosibl efelychu'r arfer da a welir yn Ysgol Gyfun Treorci ar raddfa fawr, heb gael rhagor o athrawon cymwys. Galwodd am gyflwyno cyrsiau Cymraeg dwys ar gyfer athrawon di-Gymraeg, sy'n ddarpariaeth sy'n diflannu yn ei farn ef ar adeg pan fo'r galw am athrawon Cymraeg eu hiaith yn tyfu.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sefydlu cwrs Cymraeg dwys ar gyfer athrawon a staff cymorth di-Gymraeg. Rydym yn argymhell y dylid ystyried cyflwyno'r cyrsiau hyn trwy Ganolfannau Cymraeg i Oedolion.**

54. Yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Uned Datblygu'r Gymraeg:

“There is some provision to enhance Welsh second language within basic initial teacher training (ITT). *Cynllun Colegau Cymru* is a Welsh-language programme that is used to teach

---

<sup>36</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Cennard Davies

Welsh as a second language in ITT centres, and is appropriate for trainees who wish to teach in English-medium primary schools. This programme is additional to the standard ITT course and is unaccredited.”<sup>37</sup>

55. Clywodd y grŵp gan Gareth Roberts, a chan brosiect Geiriau Bach yng Ngholeg y Drindod Caerfyrddin, fod achredu cyrsiau’n gymhelliant pwysig o ran cael athrawon i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried achredu rhaglen Gymraeg Cynllun Colegau Cymru, er mwyn darparu cymhelliant ychwanegol i athrawon ddysgu Cymraeg.**

### ***Arweinyddiaeth gadarn***

56. Clywodd y grŵp gan nifer o dystion fod arweinyddiaeth yn elfen hollbwysig o ran creu amgylchedd dwyieithog a sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei haddysgu’n effeithiol fel ail iaith. Roedd tystiolaeth a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion yn honni bod angen prif ffrydio dwyieithrwydd yn strategaeth yr ysgol, yn hytrach na’i ystyried yn rhywbeth yr ymdrinnir ag ef ar wahân er mwyn bodloni gofynion<sup>38</sup>.

57. Clywodd y grŵp fod cysylltiad uniongyrchol rhwng agwedd y pennaeth a phennaeth yr adran Gymraeg a phenderfyniad disgyblion i ddilyn y cwrs byr neu lawn TGAU. Mewn man arall yn yr adroddiad hwn, rydym yn nodi inni glywed tystiolaeth y dylai’r Gymraeg fod yn bwnc craidd yn y cwricwlwm cyfrwng Saesneg. Awgrymwyd wrth y grŵp y byddai hynny’n gwneud i benaethiaid ystyried y Gymraeg yn flaenoriaeth.

58. Yn dilyn yr ymweliad ag Ysgol Gyfun Treorci, roedd yn amlwg i’r grŵp bod penderfyniad ac ymrwymiad y pennaeth a’r uwch-dîm rheoli, yn ogystal ag adran Gymraeg effeithiol a chadarn, yn hollbwysig i lwyddiant addysgu Cymraeg a’r ethos cryf o ddwyieithrwydd sydd yn yr ysgol. Roedd athrawon yn yr ysgol, a oedd wedi’u hyfforddi’n dda, yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu hannog yn hytrach na’u gorfodi i ddysgu Cymraeg.

---

<sup>37</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, t2

<sup>38</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion, t2

59. Clywodd y grŵp gan Geiriau Bach fod cwrs y prosiect hwnnw ar ei fwyaf effeithiol pan oedd yr ysgol gyfan yn ei gefnogi, a bod ymrwymiad llawn y pennaeth yn hanfodol i lwyddiant y cwrs. Clywodd y grŵp ei bod yn bwysig i ysgolion deimlo ‘perchnogaeth’ ar ddwyieithrwydd, yn hytrach na bod staff sy’n siarad Cymraeg yn dod i’r ysgol unwaith yr wythnos. Clywodd y grŵp am enghraifft o un ysgol lle’r oedd y staff i gyd, gan gynnwys y pennaeth, wedi llwyddo ar y cwrs.

60. Roedd adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar ‘*Swyddogaeth Llywodraethwyr Ysgolion*’ yn pwysleisio’r rôl bwysig y mae llywodraethwyr ysgolion yn ei chwarae o safbwynt darparu arweinyddiaeth, ac yn pwysleisio bod perthynas effeithiol â’r pennaeth yn hollbwysig:

“Mae corff llywodraethu effeithiol yn helpu i lywio cyfeiriad ysgol yn y dyfodol. Mae ganddo weledigaeth glir sy’n pwysleisio cymeriad ac ethos unigryw’r ysgol, ac mae’n cymryd rhan mewn trafodaethau trylwyr a heriol ynghylch y ffordd orau o sicrhau safonau cyrhaeddiad addysgol uchel a rhagoriaeth i bawb.”<sup>39</sup>

**Rydym yn argymhell y dylid darparu arweiniad i benaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion ar sut y gallant ddatblygu ‘ethos dwyieithog’ yn eu hysgolion. Dylai’r arweiniad hwn ganolbwyntio ar gynyddu’r ddealltwriaeth o atebolrwydd a chyfrifoldeb, a chydweithio rhwng ysgolion, Awdurdodau Addysg Lleol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Cymru. Efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru ddefnyddio Ysgol Gyfun Treorci fel model o arfer da.**

### ***Creu cysylltiadau***

61. Clywodd y grŵp gan Uned Datblygu’r Gymraeg fod angen creu cysylltiadau rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg sy’n dymuno datblygu polisïau cadarn ar ddwyieithrwydd. Clywodd y grŵp fod prosiect peilot i ddatblygu cymunedau dysgu proffesiynol yn cael ei ystyried, ac roedd yn edrych ymlaen at weld dadansoddiad o waith y prosiect.

62. Clywodd y grŵp dystiolaeth gan nifer o dystion a oedd yn nodi y gellid rhannu arbenigedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion

---

<sup>39</sup> Y Pwyllgor Menter a Dysgu - ‘*Swyddogaeth Llywodraethwyr Ysgolion*’ 2009

cyfrwng Saesneg, gydag athrawon Cymraeg yn addysgu yn y ddwy ysgol efallai. Clywodd y grŵp hefyd y gallai fod modd defnyddio'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, sy'n darparu'r polisi cyffredinol ar gyfer cydweithio rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol, er mwyn asesu amrywiadau o fewn ysgol, rhwng ysgolion a pherfformiad yr awdurdod lleol.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried defnyddio'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion i greu cysylltiadau rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg er mwyn datblygu cymunedau dysgu proffesiynol a rhannu arbenigedd ym maes addysgu Cymraeg.**

### **Gweithgareddau allgyrsiol dwyieithog**

63. Clywodd y grŵp dystiolaeth gan sawl tyst a esboniodd fod addysg a hyfforddiant yn chwarae rôl bwysig o ran creu Cymru ddwyieithog, ac mae'r grŵp yn cydnabod nad trwy addysg ffurfiol yn unig y mae dysgu iaith yn llawn.

64. Yn ystod yr ymweliad ag Ysgol Gyfun Treorci, clywodd y grŵp fod yr ysgol wedi gweithredu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol ychwanegol, gan gynnwys 'Clwb Siarad', sy'n annog yr holl fyfyrwyr i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

65. Mae'r grŵp yn cydnabod bod disgyblion yn gynnwys eu cymunedau yn ogystal â'u hysgolion. Yn ôl dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan yr Athro Colin Baker<sup>40</sup>:

“Being bilingual creates a bridge between generations, with grandparents, for example, or with other family members. This helps to build a sense of belonging to the extended family.”

66. Yn ôl dystiolaeth ysgrifenedig a gafodd y grŵp gan Dr W Gwyn Lewis<sup>41</sup>:

“It appears that proficiency is at its lowest amongst those pupils with very little contact with the language outside the classroom.”

---

<sup>40</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan yr Athro Colin Baker, t1

<sup>41</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Dr W Gwyn Lewis, t4



67. Yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Gareth Wyn Roberts<sup>42</sup>:

“Hyd yn oed pan yw plant wedi dysgu rhywfaint o Gymraeg, cymharol ychydig sydd yna o gyfleoedd iddynt ddefnyddio y sgiliau y maent newydd eu dysgu yn y dosbarth. Pan gânt y cyfleoedd hyn, maent yn gyfyngedig a heb eu datblygu’n ddigonol e.e. o’r cyfnod sylfaen/cyfnod allweddol 1 i gyfnod allweddol 2.”

68. Dadleuodd y Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion nad yw’n ddigon addysgu Cymraeg fel ail iaith yn unig, ond y dylid ei defnyddio mewn agweddau eraill ar fywyd yr ysgol, ac y dylai’r Gymraeg ac ymwybyddiaeth o Gymru dreiddio drwy holl ethos yr ysgol. Mae’r Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion yn cyflogi un athro sy’n gyfrifol am hybu dwyieithrwydd yn gyffredinol. Clywodd y grŵp fod y gwasanaeth hefyd yn cynnal prosiect gydag Awdurdod Addysg Lleol Merthyr ar ddatblygu dwyieithrwydd drwy’r ysgolion i gyd, ac mai’r bwriad yw ehangu’r prosiect a’i rannu ag awdurdodau lleol eraill.

69. Clywodd y grŵp fod llawer o bobl yng Nghymru yn cael cyfle yn rheolaidd i siarad Cymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol, neu mewn amgylchedd gwaith hyd yn oed, er eu bod yn gyndyn o ddefnyddio’r iaith am nad oes ganddynt ddigon o hyder neu am eu bod yn eu hystyried eu hunain yn rhy swil.<sup>43</sup> Clywodd y grŵp hefyd fod hyder pobl ifanc i ddefnyddio’r Gymraeg yn amrywio’n ôl y testun dan sylw – byddai pobl ifanc yn defnyddio’r Gymraeg wrth drafod testunau sy’n gysylltiedig ag addysg yn yr ysgol neu’r coleg. Fodd bynnag, byddent yn defnyddio Saesneg yn aml wrth drafod diwylliant poblogaidd.

### **Cynllunio ar gyfer dysgu iaith**

70. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dadleuodd yr Athro Colin Baker fod cynllunio iaith yn hanfodol os yw’r Gymraeg am oroesi yn y tymor hir a chael ei hadfywio yn y tymor byr a chanolig.<sup>44</sup> Nododd mai cynllunio ar gyfer dysgu iaith yw’r sylfaen ar gyfer cynllunio iaith yn ogystal â throsglwyddo iaith o’r naill genhedlaeth i’r llall (rhieni yn trosglwyddo’u hiaith i’w plant) a dysgu ail iaith ym maes addysg.

---

<sup>42</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Gareth Wyn Roberts, t3

<sup>43</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Gareth Wyn Roberts, t3

<sup>44</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan yr Athro Colin Baker, t4

71. Mae ei dystiolaeth yn nodi mai diffyg trosglwyddo iaith mewn teulu yw achos uniongyrchol newid ieithyddol, sy'n arwain yn aml at golli'r iaith leiafrifol dros ddwy neu dair cenhedlaeth. Nododd hefyd fod a wnelo cynllunio ar gyfer dysgu iaith yn rhannol ag annog rhieni i fagu eu plant yn ddwyieithog.

72. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, tynnodd Dr W Gwyn Lewis sylw at ganfyddiadau gwaith ymchwil a gynhaliwyd i archwilio pam mae safonau cyflawniad mewn Cymraeg Ail Iaith yn isel. Mae ei dystiolaeth yn dweud bod rhieni yn weddol gefnogol i'w plant ddysgu Cymraeg: yn y sector cynradd roedd naw y cant yn gefnogol iawn, roedd 50 y cant yn weddol gefnogol, ac roedd 41 y cant yn anghefnogol; yn y sector uwchradd, roedd y canrannau cyfatebol fel a ganlyn: 22 y cant yn gefnogol iawn, 57 y cant yn weddol gefnogol; a 21 y cant yn anghefnogol. Nid oedd 10 y cant o rieni yn gweld diben mewn dysgu Cymraeg, ac ni fyddent yn gefnogol pe bai'n rhaid i'w plant ddilyn cwrs TGAU gorfodol.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ffyrdd o weithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, CBAC a'r Urdd i hyrwyddo manteision siarad Cymraeg yn effeithiol ymysg rhieni di-Gymraeg, yn enwedig y nifer sylweddol o rieni sy'n gyndyn o annog eu plant i ddysgu Cymraeg.**

73. Roedd y grŵp yn cefnogi'r farn bod gwaith dysgu iaith ar ei fwyaf effeithiol pan gaiff yr iaith ei defnyddio'n gyfrwng i addysgu pynciau eraill. Clywodd y grŵp gan nifer o dystion y gellid sicrhau gwell lefelau cyflawniad mewn Cymraeg Ail Iaith pe bai mwy o sylw'n cael ei roi i ddefnyddio'r iaith yn rhyngweithiol, mewn gwaith llafar yn bennaf, trwy bynciau priodol megis Addysg Gorfforol, celf, drama a cherddoriaeth.

74. Dywedodd CBAC wrth y grŵp fod athrawon Cymraeg yn aml yn annog disgyblion i wyllo S4C er mwyn datblygu eu sgiliau Cymraeg. Pwysleisiwyd y pwynt hwn hefyd gan Uned Datblygu'r Gymraeg a nododd nad yw S4C, er ei bod yn darparu DVDs dysgu Cymraeg sy'n cynnwys clipiau byr o raglenni'n benodol ar gyfer ysgolion, yn hygyrch yn aml i bobl ifanc sy'n dysgu Cymraeg, ac nad yw rhai rhaglenni'n ddigon poblogaidd o safbwynt diwylliannol i ddenu pobl ifanc. Dadleuodd yr Uned hefyd y dylai S4C ddarparu mwy o gyfleoedd i rai dan 18 oed ddysgu Cymraeg trwy'r sianel deledu, ac y dylid creu mwy o gyfleoedd i'r rheini sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith ar bob lefel.

75. Clywodd y grŵp fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio'n agos gyda'r BBC i ddatblygu'r adnodd 'Bitesize' ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith, sy'n adnodd astudio rhad ac am ddim ar-lein i fyfyrwyr ysgol.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cydweithio â S4C a CBAC i ddatblygu rhaglenni newydd ar gyfer dysgu Cymraeg fel ail iaith, sy'n cynnwys diwylliant poblogaidd ac sy'n berthnasol i'r gymdeithas gyfoes. Rydym yn argymhell hefyd bod y rhaglenni hyn yn cael eu darlledu trwy'r holl gyfryngau sydd ar gael i S4C er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr Cymraeg Ail Iaith fynediad parod i adnoddau dysgu.**

### **Gwobrwyo dwyieithrwydd**

#### ***Colegau ac ysgolion sy'n ystyriol o ddwyieithrwydd***

76. Clywodd y grŵp dystiolaeth gan Gareth Wyn Roberts a ddywedodd mai'r peth cyntaf a fyddai'n taro rhywun wrth fynd i mewn i ysgol ddwyieithog fyddai arwyddion dwyieithog, rhywun sydd â'r gallu i gyfarch pobl yn y ddwy iaith, ac enghraifft o'r Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn ystod o ddsbarthiadau gwahanol megis Addysg Gorfforol a Cherddoriaeth.

77. Nod y cynllun yn Ysgol Gyfun Treorci oedd hybu, cefnogi a gwella perfformiad ieithyddol disgyblion ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 3 trwy roi cyfle iddynt astudio nifer gyfyngedig o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.

78. Bydd ysgolion a cholegau yn cael cydnabyddiaeth yn aml am wahanol agweddau ar eu gwaith, gan gynnwys gwobrau am hybu bwyta'n iach, ecoleg a chysylltiadau rhyngwladol. Fodd bynnag, clywodd y grŵp nad oedd dull graddedig o wobrwyo gwahanol gamau'n ymwneud â dwyieithrwydd mewn sefydliadau addysgol.

79. Yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Gareth Wyn Roberts:

“Ar lefel sylfaenol, mae ysgolion angen polisi enghreifftiol, rhestr fuddiol o enwau ystafelloedd ac eitemau wedi eu sillafu'n gywir, ymadroddion cyffredin bob dydd a sgwrs fanesol ac yn

bwysicach fyth canllawiau manwl ar sut mae hyn yn perthyn i ddatblygiad y Saesneg a'r Gymraeg trwy'r ysgol.

“Ar y lefel uchaf, byddai sefydliadau yn datblygu myfyrwyr a disgyblion fel eu bod yn bobl ddwyieithog fedrus sy'n hollol hapus i weithio trwy gyfrwng y naill iaith neu'r llall.”<sup>45</sup>

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i baratoi a chyhoeddi arweiniad ar gyfer ysgolion i gydnabod y gwahanol raddau o ddwyieithrwydd. Rydym yn argymhell hefyd y dylai unrhyw arweiniad a gyhoeddir gynnwys gradd arolygu briodol, yn unol â'r graddau hynny a ddarperir ar gyfer datblygu cynaliadwy a chysylltiadau rhyngwladol.**

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried dichonolrwydd gweithredu Menter Ysgolion Ystyriol o Ddwyieithrwydd, a fyddai'n rhoi pwyslais ar ddull ysgol gyfan o ystyried dwyieithrwydd.**

80. Yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Gareth Wyn Roberts:

“Mae ein cyfundrefn addysgol yn gwobrwyo hyfedredd yn y Saesneg a'r Gymraeg (mamiath ac ail iaith). Mae hefyd yn rhoi credyd am 'gyfathrebu' trwy gymwysterau sgiliau allwedd ac fel elfen oddi mewn i Bac Cymru ond nid oes unrhyw ffordd o gydnabod hyfedredd dwyieithog.”<sup>46</sup>

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio system raddedig o wobrwyo hyfedredd mewn dwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg, sy'n addas i addysg gynradd, uwchradd a thrydyddol.**

**Yr angen i genhadu dros ddwyieithrwydd**

81. Er bod brwdfrydedd ymhlith gweithwyr proffesiynol ar draws Cymru i ddatblygu dwyieithrwydd yn y sector addysg, clywodd y grŵp nad oes gan yr un unigolyn na'r un sefydliad drosolwg o'r holl fentrau i rannu arfer gorau a gwerthuso rhaglenni'n briodol.

---

<sup>45</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Gareth Wyn Roberts, t1

<sup>46</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Gareth Wyn Roberts, t2

82. Yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Gareth Wyn Roberts<sup>47</sup>:

“Yn Lloegr, mae llywodraeth San Steffan wedi penodi ‘tsar’ iaith dramor i gyd-drefnu dysgu iaith dramor. Gallem fanteisio ar yr un math o feddylfryd unedig yng Nghymru er mwyn harneisio a hybu brwdfrydedd dros yr iaith a’i wneud yn fwy effeithiol.”

83. Ar 4 Mawrth 2010, cyflwynodd y Gweinidog dros Dreftadaeth Fesur arfaethedig y Gymraeg (Cymru), y bwriedir iddo foderneiddio’r fframwaith cyfreithiol sy’n bodoli ynghylch defnyddio’r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Ymysg pethau eraill, mae’r Mesur arfaethedig yn creu darpariaeth ar gyfer darparu panel cynghori i Gomisiynydd y Gymraeg, a benodir gan Weinidogion Cymru. Bydd gan y panel arfaethedig rôl bwysig o safbwynt cynghori’r Comisiynydd ynghylch materion polisi ehangach.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â’i phartneriaid, yn goruchwyllo ac yn monitro gwaith datblygu a hyrwyddo strategaethau lleol a chenedlaethol ynghylch addysg ddwyieithog, ac yn gwneud yn siŵr bod ysgolion ledled Cymru yn cael y cymorth a’r cyngor angenrheidiol i sicrhau bod yr holl bolisiau addysg yn gydnaws â darpariaeth ddwyieithog. Rydym yn argymhell hefyd bod safbwyntiau ysgolion yng Nghymru yn cael eu cynrychioli ar banel cynghori arfaethedig Comisiynydd y Gymraeg.**

**Arfer da wrth addysgu’r Gymraeg fel ail iaith**

84. Cafodd y grŵp ei galonogi gan yr holl arfer da a gâi ei gyflawni gan weithwyr proffesiynol ym maes addysg ddwyieithog ledled Cymru.

### ***Athro Cymraeg teithiol***

85. Yn dilyn gwaith ymgynghori eang, penododd Ysgol Gyfun Treorci athro Cymraeg teithiol i ddatblygu ethos Cymraeg yn rhan o ddiwylliant yr ysgol, a chwarae rôl sylweddol o ran gwella’r berthynas â chlwstwr o ysgolion cynradd sy’n bwydo’r ysgol gyfun.

86. Yn 2006, canfu Estyn fod gwaith datblygu dwyieithrwydd yn Ysgol Gyfun Treorci yn “rhagorol”, ac enillodd yr ysgol y graddau gorau ar gyfer yr iaith yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4. Bob blwyddyn, mae tua 30 o ddisgyblion newydd yn ymuno â dau ddsbarth carlam ym

---

<sup>47</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Gareth Wyn Roberts, t2

mlwyddyn 7, ac fel rheol byddant yn sefyll eu harholiad TGAU Cymraeg Ail Iaith flwyddyn yn gynnar ym Mlwyddyn 10.

87. Clywodd y grŵp fod gan Ysgol Gyfun Treorci ymrwymiad strategol cadarn iawn i ddatblygu'r Gymraeg, mewn ysgol sy'n ysgol cyfrwng Saesneg yn bennaf. Roedd llywodraethwyr yr ysgol wedi chwarae rôl allweddol wrth benodi'r athro teithiol.

88. Yn ogystal â'r arfer da a welwyd yn Ysgol Gyfun Treorci, clywodd y grŵp fod Ysgol y Porth wedi ariannu athro, trwy Gyllid Ysgolion Gwell, i weithio i ddatblygu'r iaith gydag ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol, sy'n ysgolion babanod ac yn ysgolion cynradd. Y gobaith yw y bydd yr holl fyfyrwyr yn sefyll eu harholiad TGAU Cymraeg ym Mlwyddyn 9, a fydd yn eu galluogi i astudio elfen Gymraeg Bagloriaeth Cymru ym Mlwyddyn 10 ac 11.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu rhagor o ymchwil i'r arfer o gyflogi athrawon Cymraeg teithiol i helpu gyda'r broses bontio rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3, fel y gwna Ysgol Gyfun Treorci, a'i bod yn archwilio cyfleoedd i rannu arfer gorau ag ysgolion cyfrwng Saesneg ledled Cymru.**

### ***Prosiect Geiriau Bach***

89. Bu'r grŵp yn ymweld â phrosiect Geiriau Bach, a gaiff ei redeg gan yr Ysgol Addysg Blynyddoedd Cynnar yng Ngholeg Prifysgol y Drindod. Mae'r prosiect wedi'i anelu at staff sy'n cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, sy'n cynnwys elfen ddwyieithog, i blant rhwng 3 a 7 oed, ac un o nodau allweddol y cwrs yw normaleiddio'r arfer o ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r sector cyfrwng Cymraeg.

90. Caiff y cwrs ei gyflwyno mewn grwpiau lleol sy'n cyfarfod am ddwy awr yr wythnos dros gyfnod o ddwy flynedd. Caiff myfyrwyr Geiriau Bach eu haddysgu a'u cefnogi gan diwtoriaid profiadol a chymwys. Clywodd y grŵp fod y cwrs yn cael ei gyflwyno gan arbenigwyr ar y blynyddoedd cynnar, ac nid gan athrawon ail iaith.

91. Mae'r rhaglen wedi'i dilysu gan Brifysgol Cymru fel Tystysgrif mewn Cymraeg ac Ymarfer Dwyieithog yn y Blynyddoedd Cynnar (Lefel 4). Mae'n cynnig sgiliau y gellir eu trosglwyddo'n syth i'r gweithle, gan fod yr holl fyfyrwyr yn gweithio'n agos gyda phlant bach. Mae'r myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar y cwrs ar hyn o bryd yn cynnwys

arweinwyr cylchoedd chwarae, athrawon, gwarchodwyr plant, Cynorthwyr Cymorth Dysgu a staff meithrinfeydd dydd.

92. Clywodd y grŵp fod y cwrs wedi bod yn ddefnyddiol hefyd o safbwynt gwella sgiliau Cynorthwyr Cymorth Dysgu, a'i fod wedi galluogi llawer o fyfyrwyr i feithrin gwell dealltwriaeth o bob agwedd ar y Cyfnod Sylfaen.

93. Dechreuodd Geiriau Bach fel prosiect peilot yn 2007. Bydd y cyllid ar gyfer y prosiect yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2011. Clywodd y grŵp fod galw cynyddol am y cwrs a bod y broses gynllunio ar gyfer cofrestru myfyrwyr ar gyfer 2011 ar fin dechrau. Fodd bynnag, roedd ansicrwydd ynghylch a fyddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cyllid y tu hwnt i 2011.

94. Er bod Geiriau Bach wedi darparu adborth rheolaidd i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch llwyddiant y cwrs, clywodd y grŵp na chafwyd cadarnhad gan swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru fod y Gweinidog wedi cael yr adborth hwnnw'n uniongyrchol.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cymorth ariannol digonol i brosiect Geiriau Bach y tu hwnt i 2011, a'i bod yn archwilio'r posibilrwydd o gomisiynu prosiectau peilot eraill ledled Cymru. Rydym yn argymhell hefyd bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n rhagweithiol i ddarparu adborth rheolaidd a'r gefnogaeth angenrheidiol i brosiectau sy'n bodoli'n barod a phrosiectau'r dyfodol.**

### ***SaysomethinginWelsh.com***

95. Cafodd y grŵp dystiolaeth ysgrifenedig gan SaysomethinginWelsh (SSiW), sy'n gwrs a ddatblygwyd o brofiadau unigol y trefnwyr o ddysgu iaith, gyda'r bwriad o sicrhau bod dysgwyr Cymraeg yn gallu elwa o welliannau diweddar ym maes dysgu iaith. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig y trefnwyr yn amlinellu eu cynlluniau i ddatblygu cyrsiau ar lefelau uwch, ac yn benodol, i sicrhau bod y cyrsiau ar gael i bob plentyn yng Nghymru a phobl sy'n dysgu Cymraeg yn y gweithle.

96. Yn dilyn cais gennym, ymatebodd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes i dystiolaeth ysgrifenedig gan SSiW, a dywedodd:

“SSiW courses are designed to develop oral skill only in the Welsh language. This is an important skill, in the context of the

laith Pawb aim of increasing the number of Welsh speakers. Indeed, this is also the main approach taken by the Welsh for Adults Centres. However, writing skills are vitally important, particularly as the learner progresses and especially in a school and workplace environment.”<sup>48</sup>

### ***Athrawon Bro***

97. Clywodd y grŵp fod Athrawon Bro yn agwedd allweddol ar y gwasanaeth cymorth iaith i ddisgyblion a’u hathrawon, a’u bod yn cynnig cefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth, deunyddiau addysgu a chymorth gyda materion polisi. Nododd y grŵp fod gan Athrawon Bro rôl bwysig i’w chwarae hefyd yn y prosiectau pontio y bwriedir iddynt sicrhau parhad o ran darpariaeth ieithyddol rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3.

98. Er mis Ebrill 1997, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi darparu grantiau i ariannu’r gwaith a gyflawnir gan dimau o Athrawon Bro. Prif feysydd blaenoriaeth y grantiau yw’r gwasanaeth Athrawon Bro, canolfannau iaith, cyrsiau preswyl a phrosiectau arloesol.

99. Yn ei Gynllun Gweithredol ar gyfer 2008-9, ymrwymodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg i gyfrannu at gefnogi swyddi 144 o Athrawon Bro ledled Cymru. Roedd hefyd yn bwriadu sicrhau 26,000 o ymweliadau ag ysgolion gan Athrawon Bro, a chyfrannu at gefnogi 26 o athrawon mewn canolfannau i ‘hwyrddyfodiaid’. Disgyblion uniaith Saesneg yw’r rhain, sy’n symud i ardaloedd Cymraeg eu hiaith.

100. Canfu arolwg a gynhaliwyd gan Estyn yn 2003<sup>49</sup> fod Athrawon Bro yn allweddol o ran helpu ysgolion mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith i ddatblygu dwyieithrwydd hwyrddyfodiaid uniaith Saesneg. Canfu arolwg Estyn eu bod yn helpu hwyrddyfodiaid i bontio’n ieithyddol i’w hamgylchedd newydd. Caiff hynny ei gyflawni’n bennaf yn y canolfannau iaith, ond nid ynddynt hwy’n unig.

101. Clywodd y grŵp fod Athrawon Bro yn allweddol o ran datblygu polisi dwyieithrwydd Ysgol Gyfun Treorci, a’u bod yn dylanwadu’n sylweddol ar ledaenu dulliau da o addysgu Cymraeg. Roedd eu cyfraniad yn arbennig o effeithiol pan fyddai athrawon dosbarth yn chwarae rhan weithredol yn y gwersi ac wrth osod targedau.

---

<sup>48</sup> Llythyr gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes – 21 Ebrill 2010

<sup>49</sup> Estyn, *Arolwg o Waith Athrawon Bro yng Nghymru*, 2003



## Casgliad

---

102. Yn 2002, cyhoeddodd Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad Cenedlaethol adroddiad ar y cyd â'r Pwyllgor Diwylliant, sef 'Ein hiaith: Ei dyfodol – Adolygiad polisi o'r Iaith Gymraeg'. Roedd yr adroddiad yn cefnogi gweledigaeth ganlynol y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar gyfer datblygu addysg ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg:

“Mae'r Pwyllgor yn dymuno gweld cynnydd cyson a sylweddol yn y ddarpariaeth dros y deng mlynedd nesaf, mewn ymateb i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Dylai addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog o ansawdd da fod ar gael yn rhwydd ym mhob rhan o Gymru. Dylid rhoi mwy o gyfle i bobl ddatblygu a defnyddio'r sgiliau ieithyddol hyn yn eu bywydau bob dydd. Mae dwyieithrwydd yn gyfle y dylid ei feithrin a'i werthfawrogi.”

103. Mae llawer o'r canfyddiadau hynny'n debyg i gasgliadau'r ymchwiliad hwn. Mae'n siomedig gweld bod yr un pryderon yn cael eu mynegi wyth mlynedd yn ddiweddarach. Mae'r grŵp yn gobeithio y bydd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn er mwyn sicrhau na fydd y materion hyn yn cael eu codi gan Bwyllgorau'r dyfodol.

104. Roedd y grŵp wedi'i galonogi gan yr holl arfer da sydd wedi'i gyflawni, a gwnaeth ymrwymiad ac egni'r unigolion y cyfarfu'r grŵp â hwy wrth gasglu tystiolaeth argraff arbennig arno. Roedd y grŵp wedi'i galonogi hefyd wrth glywed bod agweddau tuag at y Gymraeg wedi dod yn fwy cadarnhaol o lawer yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bod agwedd pobl yng Nghymru tuag at y Gymraeg yn gefnogol iawn yn wir.

105. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud yn fawr o'r tueddiadau hyn er mwyn sicrhau bod y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn effeithiol, a bod pob dysgwr ym mhob Cyfnod Allweddol yn cael cyfleoedd i ymarfer a dysgu Cymraeg. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau hefyd bod rhwydweithiau anffurfiol ar lefel gymunedol yn cael eu cynnal, a bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, mewn sefyllfaoedd addysg, hamdden a chymdeithasol yn benodol, yn cael eu gwella, oherwydd maent yn hanfodol o ran sicrhau bod pobl ifanc yn teimlo perchnogaeth ar yr iaith ac o ran sicrhau y gallant deimlo'n fwy

hyderus i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg ym mhob agwedd ar eu bywyd.

**Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod casgliadau ac argymhellion ein hadroddiad yn cael eu hadlewyrchu wrth weithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.**

## Atodiad A – Tystion, tystiolaeth a gweithgareddau

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r tystion canlynol a ddarparodd dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i'r grŵp rapporteur ar ddwyieithrwydd. Gellir gweld y dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn drwy glicio ar y dolenni cyswllt a ddarperir.

<i>Dyddiad</i>	<i>Tystiolaeth</i>
5 Chwefror 2009	<a href="#"><u>Bwrdd yr Iaith Gymraeg</u></a> Sali Wyn Islwyn – Cyfarwyddwr Datblygu Cymunedol Ifan Evans – Cyfarwyddwr, Sector Preifat a Busnes
19 Mawrth 2009	<a href="#"><u>Bwrdd yr Iaith Gymraeg</u></a> Hywel Jones, Ystadegydd Gari Lewis, Cyfarwyddwr Plant a Phobl Ifanc
14 Mai 2009	<b>Ymweliad ag Ysgol Gyfun Treorci</b> Bethan Guilfoyle – Pennaeth Disgyblion, rhieni a chefnogwyr Ysgol Gyfun Treorci
18 Mehefin 2009	<a href="#"><u>Y Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion (ESIS)</u></a> Mererid Morgan, Ymgynghorydd y Gymraeg ar gyfer ESIS Huw F. Lewis, Uwch Athro Bro, ESIS
28 Ionawr 2010	<a href="#"><u>Ymweliad â Geiriau Bach</u></a> Siân Wyn Siencyn, Pennaeth Ysgol Addysg Blynyddoedd Cynnar, Coleg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin Eileen Merriman, Uwch-ddarlithydd Ysgol Addysg Blynyddoedd Cynnar, Coleg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin Sharon Lewis, Uwch-diwtor a hyfforddwr, prosiect Geiriau Bach

Glenda Jones, Uwch-diwtor a hyfforddwr,  
prosiect Geiriau Bach

Eira Jones, Tiwtor maes Geiriau Bach

Delyth Kenny, Tiwtor maes Geiriau Bach

25 Mawrth 2010

[Gareth Wyn Roberts](#)

27 Mai 2010

[Uned Datblygu'r Gymraeg Llywodraeth Cynulliad  
Cymru](#)

Jo Knell, Arbenigwr Pwnc: Cymraeg Ail Iaith

Nia Jones, Arbenigwr Pwnc: Cymraeg 11-19

Awen Penri, Uwch-reolwr Datblygu

[CBAC](#)

Siân Llewellyn, Prif Reolwr, Cyfrwng Cymraeg

**Tystiolaeth  
ysgrifenedig a  
ddarparwyd i'r  
grŵp**

[SaysomethinginWelsh.com](#)

[Yr Athro Colin Baker](#)

[Dr W Gwyn Lewis](#)

[Cennard Davies](#)

**Gohebiaeth**

[Llythyr gan y Gweinidog dros Blant, Addysg,  
Dysgu Gydol Oes a Sgiliau - 9 Rhagfyr 2009](#)